



Arweiniad am safonau proffesiynol a moeseg i feddygon

Gwneud penderfyniadau a chaniatâd

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rhaid bod modd i gleifion ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol a sicrhau bod eich arfer yn bodloni'r safonau a ddisgwyilir gennych mewn pedwar maes.

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf.
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da.
 - Sicrhau eich bod yn diweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
 - Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

Diogelwch ac ansawdd

- Gweithredu yn ddi-oed os byddwch yn credu bod diogelwch, urddas neu gysur cleifion mewn perygl.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas.
 - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.
 - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion.
 - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau.
 - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall.
 - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi.
 - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau.

Cynnal ymddiriedaeth

- Bod yn onest a gweithredu mewn ffordd ddidwyll.
- Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg.
- Ni ddylech fyth gymryd mantais ar ffydd eich cleifion ynddoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

Gwneud penderfyniadau a chaniatâd

Cyhoeddwyd ar 30 Medi 2020, a bydd yn dod i rym ar 9 Tachwedd 2020.

Gallwch weld y fersiwn diweddaraf o'r arweiniad hwn ar ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/guidance.

I weld cyfeiriadau gwefan llawn y cyfeiriadau yn yr arweiniad hwn, trowch at y fersiwn ar-lein ar ein gwefan.



Cynnwys

	Paragraff (au)	Tudalen
Am yr arweiniad hwn		04
Sut i ddefnyddio'r arweiniad hwn		05
Terminoleg		06
Saith egwyddor gwneud penderfyniadau a chaniatâd		07
Cwmpas yr arweiniad hwn	1–4	08
Mabwysiadu dull gweithredu cymesur	5–7	09
Y deialog sy'n arwain at benderfyniad	8–49	11
Y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i gleifion	10–13	11
Amgylchiadau eithriadol pan fyddwch yn penderfynu peidio rhannu'r holl wybodaeth berthnasol efallai	14–15	13
Darganfod yr hyn sy'n bwysig i'r claf	16–20	14
Trafod manteision a niwed	21–24	15
Ateb cwestiynau a delio ag ansicrwydd	25–26	16
Cynorthwyo gweithgarwch penderfynu cleifion	27–30	17
Cwmpas penderfyniadau	31	18
Bwrw golwg ymlaen i benderfyniadau yn y dyfodol	32–39	19
Cael cymorth gan aelodau eraill y tîm gofal iechyd	40–47	21
Cyfrifoldeb a dirprwyo	42–47	22
Os byddwch yn anghytuno gyda dewis claf	48–49	24
Cofnodi penderfyniadau	50–55	25
Cofnodion meddygol cleifion	50–51	25
Recordiadau sain a gweledol	52–53	25
Ffurflenni caniatâd	54–55	26

	Paragraff (au)	Tudalen
Adolygu penderfyniadau	56–59	27
Amgylchiadau sy'n effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau	60–96	28
Cyfyngiadau ar amser ac adnoddau	60–61	28
Triniaeth mewn argyfyngau	62–64	29
Os na fydd claf yn dymuno cymryd rhan mewn penderfyniad	65–68	30
Os ydych yn pryderu nad yw claf yn gallu gwneud penderfyniad o'u gwirfodd	69–75	31
Os bydd eich claf heb alluedd i wneud y penderfyniad efallai	76–86	33
Galluedd meddyliol	76	33
Y fframwaith cyfreithiol	77–80	34
Rhagdybio galluedd	81	34
Asesu galluedd	82–86	35
Gwneud penderfyniad pan fo'r claf heb alluedd: budd cyffredinol	87–91	36
Datrys anghytundebau	92–93	
Gwneud penderfyniadau am driniaeth a gofal pan fydd y gyfraith yn effeithio ar hawl claf i roi eu caniatâd	94–96	39
Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y claf	94	40
Ôl-nodion		41

Am yr arweiniad hwn

Mae caniatâd yn egwyddor gyfreithiol a moesegol sylfaenol. Mae gan bob claf yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal ac i wneud penderfyniadau gwybodus os y gallant. Mae cyfnewid gwybodaeth rhwng meddyg a chlaf yn hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau da. Gall niwed difrifol ddigwydd os na wrandawir ar gleifion, neu os na fyddant yn cael y wybodaeth y bydd ei hangen arnynt – a'r amser a'r cymorth i'w deall – fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.

Rhaid i feddygon deimlo'n fodlon eu bod wedi cael caniatâd claf neu awdurdod dilys arall cyn darparu triniaeth neu ofal. Diben yr arweiniad hwn yw helpu meddygon i gyflawni'r safon hon. Mae'n adlewyrchu'r egwyddorion moesegol y sylfaenir arfer da arnynt.

Er bod y gyfraith sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau yn amrywio ar draws y DU, mae'r arweiniad hwn yn cyd-fynd â'r gyfraith yn y bedair gwlad ac mae'n cynorthwyo meddygon i weithredu o'i mewn. Rhoddir crynodeb o ddeddfwriaeth allweddol a chyfraith achosion sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau a chaniatâd mewn taflen ffeithiau sydd ar gael ar ein gwefan. Disgwylir i feddygon fod yn ymwybodol o'r gyfraith ddiweddaraf a dilyn ein harweiniad a rheoliadau eraill sy'n berthnasol i'w gwaith.

Ar gael ar-lein trwy droi at; www.gmc-uk.org/guidance/decision-making-consent

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer meddygon ond gallai fod o ddiddordeb i eraill hefyd.

Sut i ddefnyddio'r arweiniad hwn

Arweiniad yw hwn am arfer da. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a fydd yn eich helpu i weithio mewn ffordd foesebol ac yn unol â'r gyfraith. Os nad ydych yn siŵr sut y mae'r gyfraith yn berthnasol mewn sefyllfa benodol, dylech geisio cyngor trwy weithdrefnau lleol, ymgynghori â'ch corff amddiffyn neu gymdeithas broffesiynol, neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rhaid i chi ddefnyddio'ch barn broffesiynol i weithredu'r arweiniad hwn a'n [harweiniad arall](#) yn eich gwaith. Os byddwch yn gwneud hyn, gan weithredu mewn ffordd ddifffuant ac er budd cleifion, byddwch yn gallu esbonio a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Dim ond methiant difrifol neu barhaus i ddilyn ein harweiniad, a fydd yn peryglu diogelwch cleifion neu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon, fydd yn peryglu'ch cofrestrriad.

Am restr lawn, trowch at www.gmc-uk.org/ethical-guidance

Terminoleg

Rydym yn defnyddio'r termau 'rhaid i chi' a 'dylech chi' yn y ffyrdd canlynol.

- Defnyddir 'Rhaid i chi' wrth gyfeirio at egwyddor neu ddyletswydd lywodraethol.
- Defnyddir 'Dylech chi' mewn dwy ffordd:
 - pan fyddwn yn esbonio sut i gyflawni dyletswydd lywodraethol
 - pan na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa, neu pan fydd ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth y byddant yn effeithio ar eich gallu i ddilyn yr arweiniad neu sut y bydd modd i chi ddilyn yr arweiniad.

Saith egwyddor gwneud penderfyniadau a chaniatâd

Egwyddor un

Mae gan bob claf yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal, a chael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus os ydynt yn gallu gwneud hynny.

Egwyddor dau

Mae gwneud penderfyniadau yn broses barhaus sy'n canolbwyntio ar ddeialog ystyrlon: cyfnewid gwybodaeth berthnasol sy'n benodol i'r claf unigol.

Egwyddor tri

Mae gan bob claf yr hawl i gael rhywun yn gwrando arnynt, a chael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael er mwyn gwneud penderfyniad, a'r amser a'r cymorth y mae angen iddynt ei gael er mwyn ei deall.

Egwyddor pedwar

Rhaid i feddygon geisio darganfod yr hyn sy'n bwysig i gleifion, fel y gallant rannu gwybodaeth berthnasol am fanteision a niwed camau gweithredu arfaethedig a dewisiadau amgen rhesymol, gan gynnwys y dewis o beidio cymryd unrhyw gamau.

Egwyddor pump

Rhaid i feddygon ddechrau o'r rhagdybiaeth bod pob claf sy'n oedolyn yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal. Dim ond ar adeg benodol y gellir barnu bod claf heb alluedd i wneud penderfyniad penodol, a dim ond ar ôl cael asesiad yn unol â gofynion cyfreithiol.

Egwyddor chwech

Rhaid i'r driniaeth neu'r gofal a ddewisir ar gyfer cleifion heb alluedd gynnig budd cyffredinol iddynt, a dylid gwneud penderfyniadau trwy ymgynghori gyda'r rhai sydd agosaf iddynt, neu sy'n eirioli ar eu rhan.

Egwyddor saith

Dylai cleifion y mae'r gyfraith yn effeithio ar eu hawl i roi eu caniatâd gael eu cynorthwyo i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan arfer dewis os oes modd.

Cwmpas yr arweiniad hwn

- 1** Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i bob penderfyniad iechyd a gofal y byddwch yn ei wneud gyda phob claf. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau am driniaethau, gweithdrefnau, ymyriadau, ymchwiliadau, sgrinio, archwiliadau a chyfeiriadau.
- 2** Rhoddir sylw i benderfyniadau ynghylch caniatâd i ddatgelu gwybodaeth yn ein [harweiniad am gyfrinachedd](#). Rhoddir sylw i benderfyniadau ynghylch darparu triniaethau neu ddulliau arloesol yn yr arweiniad hwn.
- 3** Mae'r arweiniad hwn yr un mor berthnasol i benderfyniadau a wneir am iechyd meddyliol a chorfforol, ac ym mha leoliad bynnag y byddwch yn rhyngweithio gyda chlaf, gan gynnwys ymgynghoriadau o bell.
- 4** Ar gyfer cleifion dan 18 oed, dylid darllen yr arweiniad hwn law yn llaw â [0–18 oed: arweiniad i bob meddyg](#).

Mabwysiadu dull gweithredu cymesur

- 5** Ni fydd pob paragraff o'r arweiniad hwn yn berthnasol i bob penderfyniad y byddwch yn ei wneud gyda chlaf neu am glaf. Bydd eich barn ynghylch sut i weithredu'r arweiniad yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob penderfyniad, gan gynnwys:
- a** natur a difrifoldeb cyflwr y cyflwr y claf a pha mor gyflym y mae'n rhaid gwneud y penderfyniad
 - | Gweler paragraffau 62–64 ynghylch *Triniaeth yn ystod argyfyngau*.
 - b** cymhlethdod y penderfyniad, nifer y dewisiadau sydd ar gael, a lefel y risg neu raddau'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai ohonynt
 - c** effaith y canlyniad posibl ar amgylchiadau unigol y claf
 - d** yr hyn yr ydych yn ei wybod yn barod am y claf, a'r hyn y maen nhw yn ei wybod yn barod am eu cyflwr, a'r dewisiadau posibl er mwyn ei drin neu ei reoli
 - e** natur yr ymgynghoriad.
- 6** Nid oes angen i'r broses o sicrhau caniatâd eich claf fod yn ffurfiol ac yn un sy'n cymryd cryn amser bob amser. Er bod rhai ymyriadau yn gofyn am lofnod claf ar ffurflen, ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau gofal iechyd, gallwch ddibynnu ar ganiatâd claf ar lafar, ar yr amod eich bod yn fodlon eu bod wedi cael y cyfle i ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol (gweler paragraff 10) a phenderfynu bwrw ymlaen.

Er y gall claf roi eu caniatâd ar lafar (neu heb fod ar lafar), dylech sicrhau y cofnodir hyn yn eu nodiadau. Yn ogystal, gweler paragraffau 50–53 ynghylch *Cofnodi penderfyniadau* am ragor o wybodaeth.

- 7** Ar gyfer rhai mathau o ymyriadau cyflym, y rhai sy'n creu archoll mor fach â phosib neu'r rhai heb lawdriniaeth – yn enwedig archwiliadau – byddai'n rhesymol dibynnu ar ganiatâd dieiriau claf. Mae archwiliadau yn rhan angenrheidiol o'r broses o roi diagnosis, ac mae'n rhesymol credu bod claf sy'n bresennol am ymgynghoriad yn dymuno cael diagnosis. Fodd bynnag, hyd yn oed ar gyfer gweithdrefnau mor arferol, dylech:
- a** esbonio'r hyn y byddwch yn ei wneud a pham
 - b** nodi'n glir y gall y claf ddweud na, gan stopio'n syth os byddant yn gwneud hynny
 - c** bod yn effro i unrhyw arwydd y gallent fod wedi drysu neu'n teimlo'n anhapus am yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Y deialog sy'n arwain at benderfyniad

- 8** Mae cyfnewid gwybodaeth rhwng meddyg a chlaf yn rhan ganolog o wneud penderfyniadau da. Yn ystod y broses hon y gallwch ddarganfod yr hyn sy'n bwysig i'r claf, fel y gallwch nodi'r wybodaeth y bydd angen iddynt ei chael er mwyn gwneud y penderfyniad.
- 9** Diben y deialog yw:
- helpu'r claf i ddeall eu rôl nhw yn y broses, a'u hawl i ddewis a ydynt yn mynd i gael triniaeth neu ofal neu beidio
 - sicrhau bod y claf yn cael y cyfle i ystyried gwybodaeth berthnasol a allai ddylanwadu ar eu dewis rhwng y dewisiadau sydd ar gael
 - ceisio dod i ddealltwriaeth a rennir o ddisgwyliadau a chyfyngiadau'r dewisiadau sydd ar gael.

Y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i gleifion

- 10** Rhaid i chi roi'r wybodaeth y byddant yn ei dymuno neu y bydd angen iddynt ei chael i gleifion. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys:
- a** diagnosis a phrognosis
 - b** ansicrwydd ynghylch y diagnosis neu'r prognosis, gan gynnwys dewisiadau er mwyn cynnal ymchwiliadau pellach
- | Yn ogystal, gweler paragraffau 25–26 ynghylch *Delio gydag ansicrwydd*.*
- c** dewisiadau er mwyn trin neu reoli'r cyflwr, gan gynnwys y dewis o beidio gwneud unrhyw beth
 - d** natur pob dewis, yr hyn a fyddai'n cael ei gynnwys, a'r canlyniad a ddymunir

- e** y manteision posibl, y risgiau niwed, yr ansicrwydd ynghylch a'r tebygolrwydd o sicrhau llwyddiant pob dewis, gan gynnwys y dewis o beidio gwneud unrhyw beth.

Wrth gyfeirio at 'niwed', rydym yn golygu unrhyw ganlyniad negyddol posibl, gan gynnwys sgil-ffaith neu gymhlethdod. Gweler paragraffau 21–24 hefyd.

- 11** Rhaid i chi geisio sicrhau bod y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu gyda chleifion am y dewisiadau yn wrthrychol. Dylech fod yn ymwybodol o sut y gallai'ch dewisiadau chi ddylanwadu ar y cyngor y byddwch yn ei roi a'r iaith y byddwch yn ei defnyddio. Wrth argymell dewis ynghylch triniaeth neu ofal i glaf, rhaid i chi esbonio'ch rhesymau dros wneud hynny, gan rannu gwybodaeth am ddewisiadau amgen rhesymol, gan gynnwys y dewis o beidio gwneud unrhyw beth. Ni ddylech roi pwysau ar glaf i dderbyn eich cyngor.
- 12** Ni ddylech ddibynnu ar dybiaethau ynghylch:
 - a** y wybodaeth y bydd angen i glaf ei chael neu y byddant yn dymuno ei chael efallai
 - b** y ffactorau y gallai'r claf eu hystyried yn rhai arwyddocaol
 - c** y pwys y gallai claf ei roi ar wahanol ganlyniadau.
- 13** Mae enghreifftiau eraill o wybodaeth a allai fod yn berthnasol ac os felly, y dylid ei rhannu gyda chleifion, yn cynnwys:
 - a** a yw dewis yn driniaeth arloesol a gynlluniwyd yn benodol er budd iddynt
 - b** a oes cyfyngiad o ran yr amser sydd ar gael er mwyn iddynt wneud eu penderfyniad a beth allai goblygiadau unrhyw oedi fod
 - c** enwau a rolau pobl allweddol y byddant yn ymwneud â'u gofal, a'r sawl y gallant gysylltu â nhw (a sut) os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon

- d** eu hawl i wrthod cymryd rhan mewn addysgu neu waith ymchwil
- e** eu hawl i geisio ail farn
- f** unrhyw filiau y bydd yn rhaid iddynt eu talu
- g** unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau y gallai fod gennych chi neu'ch sefydliad
- h** unrhyw driniaethau y gallent gynnig mwy o fudd i'r claf na'r rhai y gallwch chi neu'ch sefydliad eu cynnig yn eich barn chi.

Amgylchiadau eithriol pan fyddwch yn penderfynu peidio rhannu'r holl wybodaeth berthnasol efallai

- 14** Efallai y bydd amgylchiadau yn codi pan fyddwch yn penderfynu peidio rhannu'r holl wybodaeth berthnasol gyda'r claf yn syth. Os byddwch yn oedi cyn rhannu gwybodaeth y mae angen ei rhoi er mwyn gwneud penderfyniad, dylech roi gwybod i'r claf bod mwy i'w drafod, gan sicrhau y caiff trefniadau eu gwneud i rannu'r wybodaeth cyn gynted ag y bo'n briodol gwneud hynny. Rhaid i chi wneud cofnod o'r wybodaeth y bydd angen i chi ei rhannu o hyd, eich rhesymau dros beidio ei rhannu nawr, a phryd y gellir ei rhannu.
- 15** Ni ddylech gadw gwybodaeth yn ôl y bydd angen i'r claf ei chael er mwyn gwneud penderfyniad am unrhyw reswm arall, gan gynnwys os bydd rhywun sy'n agos i'r claf yn gofyn i chi wneud hynny. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, efallai y byddwch yn teimlo y byddai rhannu gwybodaeth gyda chlaf yn peri niwed difrifol iddynt, ac os felly, efallai y bydd hi'n briodol ei chadw'n ôl. Yn y cyd-destun hwn, mae 'niwed difrifol' yn golygu mwy na'r posibilrwydd y bydd claf yn gofidio, yn penderfynu gwrthod triniaeth, neu'n gwneud dewis amgen. Mae hwn yn eithriad cyfyngedig, a dylech geisio cyngor cyfreithiol os ydych yn ystyried cadw gwybodaeth yn ôl wrth glaf.

Darganfod yr hyn sy'n bwysig i glaf

- 16** Rhaid i chi wrando ar gleifion a'u hannog i ofyn cwestiynau.
- 17** Dylech geisio darganfod yr hyn sy'n bwysig i gleifion am eu hiechyd – eu dymuniadau a'u hofnau, pa weithgareddau sy'n bwysig i ansawdd eu bywyd, yn bersonol ac yn broffesiynol – er mwyn i chi allu eu cynorthwyo i asesu effaith debygol y canlyniadau posibl ar gyfer pob dewis.
- 18** Rhaid i chi geisio archwilio anghenion, gwerthoedd a blaenoriaethau eich claf, sy'n dylanwadu ar eu gweithgarwch penderfynu, eu pryderon a'u dewisiadau am yr opsiynau, a'u disgwyliadau ynghylch yr hyn y gallai triniaeth neu ofal ei gyflawni.
- 19** Dylech ofyn cwestiynau er mwyn annog cleifion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt, fel y gallwch nodi pa wybodaeth am y dewisiadau y gallent ddylanwadu ar eu dewis. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch er mwyn eich helpu i benderfynu pa ddewisiadau fyddai'n bodloni anghenion y claf, rhaid i chi ofyn amdani cyn argymell dewis neu symud ymlaen gyda thriniaeth.
- 20** Dylech archwilio gyda chleifion pa risgiau y byddent yn fodlon eu cymryd a pha rai na fyddent yn fodlon eu cymryd er mwyn cyflawni canlyniad a ddymunir, a sut y gallai tebygolrwydd canlyniad penodol ddylanwadu ar eu dewis.

Pan fyddwn yn sôn am 'risgiau', rydym yn golygu risg niwed yn digwydd, lle y mae niwed yn unrhyw ganlyniad negyddol, gan gynnwys sgil-ffaith neu gymhlethdod. Gweler paragraffau 21–24 hefyd.

Trafod manteision a niwed

- 21** Rhaid i chi roi gwybodaeth glir a manwl i gleifion, ac sy'n cynrychioli'r sefyllfa ddiweddaraf, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael, ynghylch manteision a risgiau niwed posibl pob dewis, gan gynnwys y dewis o beidio gwneud unrhyw beth.
- 22** Ni fyddai'n rhesymol rhannu pob risg posibl o niwed, cymhlethdod neu sgil-ffaith bosibl. Yn hytrach, dylech deilwra'r drafodaeth i bob claf unigol, a chael eich tywys gan yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, a rhannu gwybodaeth mewn ffordd y gallant ei deall.
- 23** Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol fel arfer wrth drafod manteision a niwed.
- a** Risgiau niwed cydnabyddedig y byddai unrhyw un yn sefyllfa'r claf yn dymuno cael gwybod amdanynt yn eich barn chi. Byddwch yn gwybod y rhain yn barod o'ch gwybodaeth a'ch profiad proffesiynol.
 - b** Ffaith amgylchiadau clinigol unigol y claf ar y tebygolrwydd y bydd mantais neu niwed yn digwydd. Os ydych yn gwybod hanes meddygol y claf, byddwch yn gwybod rhywfaint o'r hyn y bydd angen i chi ei rannu yn barod, ond gallai'r ddeialog ddatgelu mwy.
 - c** Risgiau niwed a manteision posibl y byddai'r claf yn eu hystyried yn arwyddocaol am unrhyw reswm. Datgelir y rhain yn ystod eich trafodaeth gyda'r claf am yr hyn sy'n bwysig iddynt.
 - d** Unrhyw risg o niwed difrifol, waeth pa mor annhebygol y bydd yn digwydd.

Gweler paragraffau 16–20 ynghylch *Darganfod yr hyn sy'n bwysig i glaf*.

Gweler paragraff 5 ar *Cymryd agwedd gymesur*.

Mae hwn yn debygol o fod yn haws i'w drafod ymlaen llaw os oes modd (gweler paragraffau 32–39 ynghylch *Bwrw golwg ymlaen i benderfyniadau yn y dyfodol*). Gweler paragraff 5 ar *Cymryd agwedd gymesur*.

- e Niwed disgwylidig, gan gynnwys sgil-efeithiau cyffredin a'r hyn i'w wneud os byddant yn digwydd.

24 Dylech ystyried defnyddio cymhorthion gweledol neu gymhorthion esboniadol eraill er mwyn cynorthwyo cleifion i ddeall eu risg bersonoledig, gan ystyried eu hamgylchiadau personol a chlinigol unigol, o'i chymharu gyda'r risg ar lefel y boblogaeth.

Ateb cwestiynau a delio ag ansicrwydd

- 25** Rhaid i chi ateb cwestiynau cleifion mewn ffordd onest a chywir, ac mewn ffordd mor lawn ag y mae'n ymarferol dan yr amgylchiadau. Rhaid i chi fod yn glir ynghylch terfynau'ch gwybodaeth ac os na fyddwch yn gallu ateb cwestiwn, esboniwch a yw'n rhywbeth yr ydych chi'n teimlo'n ansicr amdano neu a yw'n rhywbeth sy'n ansicr yn ei hanfod.
- 26** Os nad ydych yn sicr am y diagnosis, neu am yr effaith glinigol y gallai triniaeth benodol ei chael, dylech esbonio hyn i'r claf. Bydd rhai pethau yn dod yn gliriach ar ôl i'r driniaeth gychwyn, felly dylech drafod y trefniadau er mwyn monitro effaith y driniaeth ac adolygu'r penderfyniad er mwyn ei rhoi, ymlaen llaw. Dylech archwilio ymlaen llaw hefyd pa ddewisiadau y byddai'r claf yn eu ffafrio yn y dyfodol efallai, gan ddibynnu ar y ffordd y bydd y driniaeth yn mynd rhagddi, a'r ffactorau y gallent ddylanwadu ar eu dewis.

Gweler paragraffau 16–20 ynghylch *Darganfod yr hyn sy'n bwysig i'r claf* a 21–24 ynghylch *Trafod manteision a niwed*.

Cynorthwyo gweithgarwch penderfynu cleifion

- 27** Mae angen i gleifion gael gwybodaeth berthnasol (gweler paragraff 10) wedi'i rhannu mewn ffordd y gallant ei deall a'i chofio, er mwyn iddynt allu ei defnyddio er mwyn gwneud penderfyniad. Er mwyn helpu cleifion i ddeall a chofio gwybodaeth berthnasol, dylech:
- a** ei rhannu mewn man ac ar adeg lle y byddant fwyaf tebygol o'i deall a'i chofio
 - b** rhagweld a fydd unrhyw beth yn debygol o beri gofid iddynt, ac os felly, ymddwyn mewn ffordd ystyriol wrth ei rhannu
 - c** bodloni dymuniadau claf os hoffent gofnodi'r drafodaeth
 - | Gweler paragraff 53 ynghylch *Recordiadau sain a gweledol*.
 - d** bodloni dymuniadau claf os ydynt yn dymuno i unrhyw un arall – perthynas, partner, ffrind, gofalwr neu eiriolwr – fod yn rhan o drafodaethau a/neu eu helpu i wneud penderfyniadau
 - e** defnyddio dehonglydd neu wasanaeth cyfieithu¹ os byddant yn cael anhawster deall Saesneg llafar
 - f** ei rhannu mewn ffurf y maent yn ei ffafrio – ysgrifenedig, sain, wedi'i chyfieithu, lluniau neu gyfryngau neu ddulliau eraill
 - g** rhoi amser a chyfle iddynt ei hystyried cyn ac ar ôl gwneud penderfyniad.
- 28** Dylech fod yn effro i arwyddion y bydd angen cymorth ar gleifion efallai er mwyn deall a chofio'r wybodaeth berthnasol, ei defnyddio i wneud penderfyniad, a chyfleu'r penderfyniad hwnnw i chi.

-
- 29** Dylech sicrhau bod addasiadau rhesymol² yn cael eu gwneud fel bod cleifion sydd ag anghenion ychwanegol yn cael digon o amser a chymorth er mwyn deall gwybodaeth berthnasol a gwneud penderfyniad. Ym mhob achos, rhaid i chi drin cleifion yn deg ac ni ddylech wahaniaethu yn eu herbyn.
- 30** Rhaid i chi sicrhau bod cleifion wedi deall y wybodaeth a roddwyd iddynt, gan ofyn a hoffent gael rhagor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad.

Cwmpas penderfyniadau

31 Rhaid i chi fod yn glir am gwmpas penderfyniadau fel bod cleifion yn deall yn union yr hyn y maent yn rhoi eu caniatâd iddo. Ni ddylech fynd y tu hwnt i gwmpas caniatâd claf, ac eithrio mewn argyfwng. Mae cytuno ar gwmpas caniatâd claf gyda nhw ymlaen llaw yn arbennig o bwysig:

Gweler paragraffau 60–62 ynghylch *Triniaeth mewn argyfyngau*.

- a** os darparir triniaeth neu ofal fesul cam, gyda chyfleoedd i adolygu ac addasu rhyngddynt
- b** os bydd gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn darparu gwahanol rannau o'r driniaeth neu'r gofal
- c** os bydd cyfle efallai, ar ôl i ymyrraeth gychwyn ac ar ôl y caiff gallu claf i wneud penderfyniad ei beryglu, i gynnal ymyriad arall
- d** os ceir risg sylweddol y bydd niwed penodol yn digwydd yn ystod ymyriad, a fyddai'n cyflwyno mwy nag un ffordd o symud ymlaen.

Gweler paragraffau 21-24 ynghylch *Trafod manteision a niwed*.

Bwrw golwg ymlaen i benderfyniadau yn y dyfodol

- 32** I rai cleifion, bydd amgylchiadau y bydd modd eu rhagweld pan fydd ganddynt amrediad o ddewisiadau ar adeg pan fyddant yn ei chael hi'n anos gwneud penderfyniadau efallai – er enghraifft oherwydd:
- a** y byddant mewn poen, wedi drysu neu'n teimlo'n ofnus efallai
 - b** y gallai eu galluedd neu eu dirnadaeth fod yn cael ei effeithio gan eu cyflwr neu gan effeithiau ymyriad
 - c** y bydd angen gwneud penderfyniad yn gyflym efallai, felly bydd llai o amser i gael deialog.
- 33** Dylech ragweld amgylchiadau o'r fath a'u trafod gyda chleifion ymlaen llaw os yw hynny'n ymarferol, felly pan fydd angen gwneud penderfyniad, bydd cleifion eisoes wedi cael amser a chyfle i ystyried y wybodaeth berthnasol (gweler paragraff 10). Bydd hi'n haws trafod risg niwed difrifol ymlaen llaw, yn hytrach nag mewn sefyllfa lle y bydd amser yn brin, pan y gallai'r claf fod mewn poen, wedi drysu neu'n teimlo'n ofnus, ac y gallai cyfeirio at niwed difrifol posibl am y tro cyntaf beri gofid.
- 34** Nid yw trafod dewisiadau ymlaen llaw yn gwaredu'r angen i gael deialog bellach yn syth cyn rhoi triniaeth, ac yn rheolaidd wrth i'r driniaeth neu'r gofal barhau. Hyd yn oed os oes cynllun gofal yn cael ei weithredu, neu os bydd y claf wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw, dylech drafod y dewisiadau sydd ar gael iddynt o hyd, rhag ofn i'r dewisiadau newid neu rhag ofn y bydd y claf wedi newid eu meddwl.

-
- 35** Os bydd gan glaf gyflwr sy'n debygol o amharu ar eu galluedd wrth iddo ddatblygu, dylech eu hannog mewn ffordd sensitif i ystyried yr hyn y maent yn dymuno iddo ddigwydd efallai os na fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau gofal iechyd. Dylech gofio na fydd rhai cleifion yn teimlo'n barod i drafod y materion hyn efallai. Gallai trafodaethau o'r fath gynnwys:
- a** dymuniadau ac ofnau'r claf, eu dewisiadau am opsiynau yn y dyfodol ynghylch gofal, a'r gwerthoedd a'r blaenoriaethau sy'n dylanwadu ar eu gweithgarwch penderfynu
 - b** unrhyw driniaeth neu ofal y gallai'r claf fod yn dymuno eu gwrthod, a than ba amgylchiadau
 - c** unrhyw ymyriadau y gallai bod angen eu gwneud mewn argyfwng, megis adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR)³
 - d** a fyddai'r claf yn dymuno i unrhyw un arall – perthnasau, ffrindiau, gofalwyr neu gynrychiolwyr – i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal.
- 36** Efallai y bydd claf yn dymuno enwebu rhywun i wneud penderfyniadau ar eu rhan neu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau os byddant yn colli galluedd neu efallai y byddant yn dymuno gwneud datganiad ymlaen llaw ynghylch gwrthod neu ofyn am driniaeth benodol. Dan yr amgylchiadau hyn, dylech roi gwybod i gleifion bod ffyrdd o ffurfioli eu dymuniadau, gan awgrymu y dylent geisio cymorth a chyngor annibynnol am hyn.

| Gweler paragraffau 77–80 ar *Y fframwaith cyfreithiol*.

-
- 37** Rhaid i chi gofnodi crynodeb o'ch trafodaeth gyda'r claf am eu gofal yn y dyfodol ac unrhyw benderfyniadau y byddant yn eu gwneud, gan gynnwys cymaint o fanylion ag y bo hynny'n ymarferol am ddymuniadau ac ofnau'r claf, eu dewisiadau am opsiynau yn y dyfodol am eu gofal, a'r gwerthoedd a'r blaenoriaethau sy'n dylanwadu ar eu gweithgarwch gwneud penderfyniadau. Os oes modd, dylech wneud y cofnod hwn tra bod gan y claf alluedd i'w adolygu a'i ddeall.
- 38** Dylech sicrhau bod y cofnod o'r drafodaeth hon yn cael ei fflagio a'i bod ar gael i'r claf ac i eraill sy'n ymwneud â'u gofal, fel bod pawb yn glir am yr hyn y cytunwyd arno. Dylai fod yn hawdd troi at unrhyw benderfyniad neu ddewis a'i adolygu'n rheolaidd.
- 39** Os ydych yn rhoi triniaeth neu ofal i glaf sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn [Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: gwneud penderfyniadau.](#)

Cael cymorth gan aelodau eraill y tîm gofal iechyd

- 40** Gan bod gwneud penderfyniadau yn broses barhaus a dynamig, gall dull wedi'i seilio ar dîm fod o gymorth wrth fodloni anghenion gwybodaeth cleifion, y gallent newid wrth i'w triniaeth neu eu gofal fynd rhagddi/rhagddo.
- 41** Efallai y bydd aelodau o'ch tîm gofal iechyd sy'n arbenigo mewn cyflyrau penodol a'u triniaeth, y maent yn gyfathrebwyr medrus, neu y maent wedi meithrin perthynas llawn ymddiriedaeth gyda'r claf. Dylech ystyried y rôl y gallai'r aelodau hyn o'r tîm ei gyflawni wrth gyfrannu at y ddeialog sy'n arwain at benderfyniad, gan ddilyn paragraffau 42–47 ynghylch cyfrifoldeb a dirprwyo.

Cyfrifoldeb a dirprwyo

- 42** Efallai y byddwch yn penderfynu dirprwyo rhan o'r broses o wneud penderfyniad, megis rhannu gwybodaeth fanwl gyda chlaf am ymyriad penodol. Defnyddir y math hwn o ddirprwyo yn rheolaidd mewn rhai timau amlddisgyblaethol ar gyfer ymyriadau penodol.
- 43** Wrth benderfynu a yw hi'n briodol dirprwyo, dylech ystyried:
- a** natur yr ymyriad a chymhlethdod y wybodaeth amdano
 - b** lefel yr ansicrwydd am y canlyniad
 - c** a yw'r claf eisoes wedi meithrin perthynas llawn ymddiriedaeth gyda chi neu'r unigolyn y byddech yn dirprwyo iddynt
 - d** unrhyw beth anarferol am gyflwr(cyflyrau) y claf ac unrhyw bryderon yr ydych yn rhagweld y byddai gan y claf efallai.
- 44** Rhaid i chi sicrhau bod yr unigolyn y byddwch yn dirprwyo iddynt:
- a** wedi cael hyfforddiant addas a'u bod yn gymwys
 - b** yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr ymyriad a'i fanteision a'i niwed cysylltiedig, yn ogystal â dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth a gofal
 - c** yn meddu ar y sgiliau i gael deialog gyda'r claf sy'n cyd-fynd â'r arweiniad
 - d** yn teimlo'n gymwys i allu cyflawni'r dasg a ddirprwywyd iddynt, ac yn deall ac yn cytuno y byddant yn troi atoch chi (neu gydweithiwr priodol arall) am wybodaeth bellach, cyngor neu gymorth yn ôl yr angen.

- 45** Os bydd rhan o'r broses o wneud penderfyniad wedi cael ei dirprwyo, rydych chi'n gyfrifol am sicrhau o hyd bod y claf wedi cael y wybodaeth y bydd angen iddynt ei chael er mwyn gwneud penderfyniad (gweler paragraff 10), eu bod wedi cael amser a chymorth i'w hystyried, a'u bod wedi rhoi eu caniatâd cyn i chi ddarparu triniaeth neu ofal. Dylech sicrhau hefyd bod gan y claf ddisgwyliad realistig am y canlyniad.
- 46** Os bydd cydweithiwr sy'n rhannu gwybodaeth gyda chlaf ar eich rhan yn mynegi pryderon am eu cymhwysedd i wneud hyn, dylech gynnig cymorth, goruchwyliaeth neu hyfforddiant a/neu wneud trefniadau amgen.
- 47** Os bydd cydweithiwr yn gofyn i chi rannu gwybodaeth gyda chlaf neu geisio caniatâd claf ar eu rhan, rhaid i chi deimlo'n fodlon eich bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud hynny yn unol â'r arweiniad hwn. Os nad ydych, dylech esbonio hyn a cheisio cymorth. Os ydych yn credu eich bod yn cael cais i weithio y tu hwnt i'ch cymhwysedd, neu os nad ydych wedi cael cymorth digonol, rhaid i chi ystyried [mynegi pryder](#).⁴

Os byddwch yn anghytuno gyda dewis claf

48 Rhaid i chi barchu hawl eich claf i benderfynu. Os bydd eu dewis (neu eu penderfyniad i beidio gwneud unrhyw beth) yn ymddangos allan o gymeriad neu'n anghyson gyda'u credoau a'u gwerthoedd, efallai y bydd hi'n rhesymol archwilio eu dealltwriaeth o'r wybodaeth berthnasol a'u disgwyliadau ynghylch canlyniad tebygol y dewis hwn a dewisiadau amgen rhesymol.

Os nad yw hi'n glir a yw claf yn deall canlyniadau eu penderfyniad neu beidio, dylech gynnig mwy o gymorth er mwyn eu helpu i ddeall y wybodaeth berthnasol. Ond ni ddylech gymryd bod claf heb alluedd oherwydd eu bod yn gwneud penderfyniad sy'n un annoeth yn eich barn chi.

Gweler paragraffau 27–30 am ffyrdd o *Gynorthwyo gweithgarwch penderfynu cleifion*.

49 Os bydd claf yn gofyn am driniaeth neu ofal na fyddai er eu budd clinigol yn eich barn chi, dylech archwilio eu rhesymau dros ofyn amdani, eu dealltwriaeth o'r hyn y byddai yn ei olygu, a'u disgwyliadau am y canlyniad tebygol. Bydd y drafodaeth hon yn eich helpu i ystyried ffactorau sy'n arwyddocaol i'r claf, gan asesu a allai darparu'r driniaeth neu'r gofal fodloni anghenion y claf. Ar ôl cael trafodaeth, os byddwch o'r farn o hyd na fyddai'r driniaeth neu'r gofal yn bodloni anghenion y claf, ni ddylech ei darparu. Ond, dylech esbonio'ch rhesymau i'r claf, gan archwilio dewisiadau eraill y gallent fod ar gael, gan gynnwys eu hawl i geisio ail farn.

Gweler *Darganfod yr hyn sy'n bwysig i'r claf*, paragraffau 16–20.

Cofnodi penderfyniadau

Cofnodion meddygol cleifion

- 50** Mae sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cynnwys y wybodaeth allweddol ddiweddaraf yn bwysig er mwyn sicrhau dilyniant gofal. Bydd cadw cofnod manwl o'r wybodaeth a gyfnewidiwyd, ac a arweiniodd at benderfyniad, yng nghofnod meddygol claf, yn cyfrannu at eu gofal yn y dyfodol, a bydd yn eich helpu chi i esbonio a chyfiawnhau'ch penderfyniadau a'ch gweithredoedd.
- 51** Dylech fabwysiadu dull cymesur o ran lefel y manylder y byddwch yn ei chofnodi. Mae [Arfer meddygol da](#) yn nodi bod yn rhaid i chi gynnwys y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r camau y cytunwyd arnynt – a'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ac yn cytuno ar y camau – yng nghofnodion clinigol y claf. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau i beidio gweithredu.

Recordiadau sain a gweledol

- 52** Os byddwch yn gwneud recordiad fel rhan o ofal claf, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch [Gwneud a defnyddio recordiadau sain a gweledol o gleifion](#). Mae recordiadau o'r fath yn rhan o'r cofnod meddygol a dylid eu trin yn yr un ffordd â chofnodion eraill.
- 53** Cleifion sy'n berchen ar y recordiadau a wneir ganddynt ac nid oes yn rhaid eu storio gyda'u cofnodion meddygol.

Ffurflenni caniatâd

- 54** Gall ffurflenni caniatâd fod yn awgrym defnyddiol i rannu gwybodaeth allweddol, yn ogystal â ffordd safonol o gofnodi penderfyniad, sy'n gallu hwyluso'r broses adolygu rheolaidd. Gellir eu defnyddio hefyd er mwyn adolygu penderfyniadau a wnaethpwyd yn gynharach, a'r wybodaeth berthnasol y cawsant eu seilio arni.
- 55** Ond, nid yw llenwi ffurflen caniatâd yn cymryd lle deialog ystyrlon wedi'i theilwra i anghenion y claf unigol.

Adolygu penderfyniadau

- 56** Oni bai bod triniaeth neu ofal yn cychwyn yn syth ar ôl i'r claf roi eu caniatâd, bydd cyfle i adolygu penderfyniad.
- 57** Dylech adolygu penderfyniad claf yn syth cyn darparu triniaeth neu ofal, ac os bydd y driniaeth yn barhaus, dylech sicrhau bod trefniadau clir mewn grym i adolygu penderfyniadau yn rheolaidd, gan ganiatáu cyfle i gleifion ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw bryderon. Yn ogystal, dylech ystyried adolygu penderfyniad i beidio gwneud unrhyw beth, yn rheolaidd.
- 58** Mae adolygu penderfyniad yn arbennig o bwysig:
- a** os nad ydych chi wedi cael trafodaeth bersonol gyda'r claf oherwydd bod cydweithiwr wedi gweld y claf yn y lle cyntaf
 - b** os bydd amser sylweddol wedi mynd heibio ers y gwnaethpwyd y penderfyniad
 - c** os bydd cyflwr y claf wedi newid
 - d** os oes gennych chi reswm dros gredu y gallai'r claf fod wedi newid eu meddwl
 - e** os bydd unrhyw agwedd ar y driniaeth neu'r gofal a ddewiswyd wedi newid
 - f** os bydd gwybodaeth newydd ar gael am fanteision posibl neu risgiau niwed unrhyw rai o'r dewisiadau y gallent beri i'r claf wneud dewis gwahanol.
- 59** Rhaid i chi sicrhau bod cleifion yn cael gwybod am gynnydd eu triniaeth, a dylech roi gwybod i gleifion y gallant newid eu meddwl ar unrhyw adeg.

Amgylchiadau sy'n effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau

Cyfyngiadau ar amser ac adnoddau

- 60** Mae gallu bodloni anghenion unigol claf am wybodaeth a chymorth yn dibynnu'n rhannol ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i chi a'ch cydweithwyr yn y sefydliadau lle'r ydych yn gweithio. Pan fydd pwysau ar eich amser neu pan fo'ch adnoddau yn gyfyngedig, dylech ystyried:
- a** y rôl y gallai aelodau eraill y tîm iechyd a gofal ei gyflawni
 - | Gweler paragraffau 40–41 ynghylch Cymorth gan aelodau eraill y tîm gofal iechyd.
 - b** pa ffynonellau gwybodaeth a chymorth eraill sydd ar gael i'r claf, megis taflenni gwybodaeth i gleifion, gwasanaethau eiriolaeth, rhaglenni cleifion arbenigol, neu grwpiau cymorth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau penodol.
- 61** Os bydd ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth yn golygu na fydd cleifion yn cael yr amser neu'r cymorth y mae ei angen arnynt er mwyn deall gwybodaeth berthnasol (gweler paragraff 10), ac os bydd hyn yn peryglu eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus mewn ffordd ddifrifol, rhaid i chi ystyried y cam o [fynegi pryder](#).⁴ Dylech ystyried hefyd a yw hi'n briodol symud ymlaen, o gofio bod yn rhaid i chi deimlo'n fodlon eich bod wedi sicrhau caniatâd y claf neu awdurdod dilys arall cyn darparu triniaeth neu ofal.

Triniaeth mewn argyfyngau

- 62** Mewn argyfwng, efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau yn gyflym, felly bydd llai o amser i weithredu'r arweiniad hwn yn fanwl, ond bydd yr egwyddorion yr un fath. Rhaid i chi dybio bod claf ymwybodol yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau, gan geisio caniatâd cyn darparu triniaeth neu ofal.
- 63** Mewn argyfwng, os bydd claf yn anymwybodol neu os byddwch yn dod i'r casgliad fel arall eu bod heb alluedd ac nid oes modd darganfod eu dymuniadau, gallwch ddarparu triniaeth sy'n angenrheidiol ar unwaith er mwyn achub eu bywyd neu atal eu cyflwr rhag gwaethygu mewn ffordd ddifrifol. Os bydd mwy nag un dewis, dylai'r driniaeth y byddwch yn ei darparu fod yr un sy'n cyfyngu leiaf ar hawliau a rhyddid y claf, gan gynnwys eu dewisiadau yn y dyfodol.
- 64** Am y cyfnod pan fydd y claf heb alluedd, dylech ddarparu gofal parhaus gan ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 87–91. Os bydd y claf yn adennill galluedd yn ystod eu cyfnod yn eich gofal, rhaid i chi ddweud wrthynt yr hyn a wnaethpwyd a pham, cyn gynted ag y byddant wedi gwella digon i ddeall. Ac mae'n rhaid i chi drafod y dewisiadau am unrhyw driniaeth barhaus gyda nhw.

Gweler paragraffau 79–82 ynghylch *Rhagdybio ac asesu galluedd*.

Os na fydd claf yn dymuno cymryd rhan mewn penderfyniad

- 65** Ni all unrhyw un arall wneud penderfyniad ar ran oedolyn sy'n meddu ar alluedd. Os bydd claf sy'n meddu ar alluedd yn gofyn i chi neu rywun arall wneud penderfyniad ar eu rhan, dylech esbonio hyn iddynt. Dylech esbonio ei bod hi'n bwysig eu bod yn deall ychydig wybodaeth sylfaenol fel y gallwch chi symud ymlaen gyda thriniaeth neu ofal. Fel arfer, byddai hyn yn cynnwys beth yw'r dewisiadau a'r hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni.
- 66** Os bydd claf wedi gwneud dewis, ond nid ydynt yn dymuno trafod y manylion, dylech esbonio y bydd angen iddynt gael rhywfaint o wybodaeth am yr hyn y byddai yn ei olygu cyn y gallwch symud ymlaen, megis:
- a fydd y weithdrefn yn creu archoll
 - lefel y boen neu'r anesmwythdra y byddant yn ei hwynebu efallai, a'r hyn y gellir ei wneud i leihau hyn gymaint ag y bo modd
 - unrhyw beth y dylent ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer yr ymyriad
 - os yw'n cynnwys unrhyw risg y byddant yn dioddef niwed difrifol.
- 67** Dylech geisio darganfod pam nad ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad, gan archwilio a ydych chi'n gallu gwneud unrhyw beth i dawelu eu meddwl a'u cynorthwyo. Efallai eu bod yn gofidio am y penderfyniad neu'n teimlo fel pe bai'r wybodaeth yn eu llethu, a bod angen amser neu gymorth arnynt i'w phrosesu.

68 Ar ôl trafod dewisiadau gyda nhw fel y nodir uchod, os bydd eich claf yn mynnu nad ydynt yn dymuno cael y wybodaeth sylfaenol hon hyd yn oed, bydd angen i chi farnu a yw eu caniatâd yn ddilys, er mwyn i chi allu symud yn eich blaen. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir os yw'r dewis arfaethedig yn ymyriad sefydledig a ddefnyddir yn gyffredin er mwyn trin y cyflwr sydd ganddynt, a cheir rheswm dros gredu bod y claf yn dymuno cael eu trin neu gael gofal, yn hytrach na pheidio gwneud unrhyw beth. Dylech ystyried ceisio cyngor gan eich corff amddiffyn meddygol neu'ch cymdeithas broffesiynol yn yr amgylchiadau hyn.

Os ydych yn pryderu nad yw claf yn gallu gwneud penderfyniad o'u gwirfodd

- 69** Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar benderfyniadau cleifion, ond mae'n bwysig na fydd unrhyw beth yn dylanwadu ar glaf i'r fath raddau fel nad ydynt yn gallu gwneud rhywbeth o'u gwirfodd. Os na fydd claf yn gallu gwneud penderfyniad o'u gwirfodd, ni fyddant yn gallu rhoi eu caniatâd.
- 70** Efallai y bydd cleifion yn teimlo dan bwysau i gael gofal neu driniaeth benodol. Gall y pwysau ddod gan eraill – partneriaid, perthnasau neu ofalwyr, cyflogwyr neu yswirwyr – neu gan gredoau cleifion am eu hunain a disgwyliadau cymdeithas.

71 Dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwn ac o sefyllfaoedd eraill lle y gallai cleifion fod yn arbennig o agored i niwed neu'n debygol o deimlo dan bwysau, er enghraifft, os ydynt:

- a** yn profi cam-drin domestig neu ffurfiau eraill o gam-drin
- b** yn breswlydd mewn cartref gofal
- c** yn cael gofal neu gymorth gan eraill oherwydd anabledd
- d** yn cael eu cadw gan yr heddlu neu'r gwasanaethau mewnfudo, neu os ydynt yn y carchar
- e** yn destun gorchmynion asesu neu drin gorfodol, neu mewn perygl o fod mewn sefyllfa o'r fath.

Cweler paragraffau 94–96 ynghylch Gwneud penderfyniadau am driniaeth a gofal pan fydd y gyfraith yn effeithio ar hawl claf i roi eu caniatâd.

72 Os byddwch yn amau bod hawliau claf wedi cael eu cam-drin neu eu gwrthod, rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau diogelu lleol ac ystyried mynegi pryder.

73 Dylech wneud eich gorau i sicrhau bod cleifion yn gwneud eu penderfyniad eu hunain, ar ôl ystyried gwybodaeth berthnasol (gweler paragraff 10) am y dewisiadau sydd ar gael, gan gynnwys y dewis o beidio gwneud unrhyw beth. Dylech eu cynorthwyo i wneud penderfyniad, gan ddilyn y camau ym mharagraffau 27–30, yn ogystal â:

- rhoi mwy o amser iddynt a lle tawel a diogel i ystyried y dewisiadau
- sicrhau eich bod yn cael cyfle i drafod gyda nhw ar eu pen eu hunain
- eu cyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol.

74 Rhaid i chi sicrhau bod eich claf yn ymwybodol o'r ffaith bod ganddynt yr hawl i ddewis a ydynt yn dymuno cael triniaeth neu beidio. Ni ddylech fwrw ymlaen gyda thriniaeth neu ofal os na fydd yn bodloni anghenion y claf yn eich barn chi.

Gweler paragraffau 48–49 os byddwch yn anghytuno gyda dewis claf.

75 Ar ôl dilyn yr arweiniad ym mharagraffau 72–74, os byddwch o'r farn o hyd bod claf dan bwysau mor eithriadol i gytuno i neu wrthod ymyriad penodol fel na allant weithredu o'u gwirfodd, dylech geisio cyngor trwy weithdrefnau lleol, ymgynghori â'ch corff amddiffyn meddygol neu'ch cymdeithas broffesiynol neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Efallai y bydd y Llys yn gallu gwneud datganiadau a gorchmynion i ddiogelu oedolion pan na fyddant yn gallu gwneud penderfyniad o'u gwirfodd.

Os bydd eich claf heb alluedd i wneud y penderfyniad efallai

Galluedd meddyliol

76 Galluedd yw'r gallu i wneud penderfyniad. Gall y gallu hwn amrywio gan ddibynnu ar gyflwr claf, a sut y mae'n newid gydag amser, ac ar natur y penderfyniad i'w wneud. O'r herwydd, caiff galluedd ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n berthnasol i benderfyniad penodol ac amser penodol; felly, dim ond ar adeg benodol neu ar gyfer penderfyniad penodol y gall unigolyn meddu ar alluedd neu fod heb alluedd.

Y fframwaith cyfreithiol

- 77** Mae gan bob awdurdodaeth yn y DU ei deddfwriaeth ei hun ynghylch galluedd meddyliol, y mae hon, gyda'i chodau ymarfer cysylltiedig, yn darparu fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau pan fydd cleifion heb alluedd i benderfynu drostynt eu hunain.
- 78** Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch dyletswyddau dan y ddeddfwriaeth berthnasol, gan ystyried y cod ymarfer perthnasol ble bynnag y byddwch yn gweithio yn y DU.
- 79** Mae *Taflen ffeithiau prif ddeddfwriaeth a chyfraith achosion* yn cynnig crynodeb o ddeddfwriaeth ynghylch galluedd ac ychydig o'r gyfraith achosion berthnasol ar draws y DU, a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar bobl sydd heb (neu y gallent fod heb) alluedd i wneud penderfyniadau am ofal iechyd, ac i'r rhai sy'n eu trin.
- 80** Nid yw'r arweiniad sy'n dilyn yn esbonio'r manylion nac yn defnyddio iaith benodol y ddeddfwriaeth, ond mae'n cyd-fynd â'r gyfraith ar draws y DU.

Ar gael ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/decision-making-consent

Rhagdybio galluedd

- 81** Rhaid i chi gychwyn o'r rhagdybiaeth bod pob claf sy'n oedolyn yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal. Ni ddylech gymryd bod claf heb alluedd i wneud penderfyniad oherwydd eu hoedran, eu hanabledd, eu hymddangosiad, eu hymddygiad, eu cyflwr meddygol (gan gynnwys salwch meddwl), eu credoau, y ffaith ei bod yn ymddangos na allant gyfathrebu, neu oherwydd eu bod yn gwneud dewis annoeth yn eich barn chi, yn unig.

Asesu galluedd

- 82** Mae asesu galluedd yn fedr glinigol graidd nad yw'n gofyn am fewnbwn arbenigol o reidrwydd (ee gan seiciatrydd). Dylech fod yn gallu ffurfio casgliadau rhesymol am allu eich claf yn ystod eich deialog gyda nhw. Dylech fod yn effro i arwyddion bod cleifion heb alluedd efallai, ac mae'n rhaid i chi roi'r holl help a chymorth rhesymol iddynt er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad.
- 83** Bydd unigolyn yn meddu ar alluedd os byddant yn gallu cyflawni'r holl bethau canlynol:
- a** deall gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw
 - b** cofio'r wybodaeth honno
 - c** defnyddio'r wybodaeth i wneud eu penderfyniad
 - d** cyfleu penderfyniad.
- 84** Os byddwch yn credu bod claf heb alluedd i wneud penderfyniad, rhaid i chi asesu eu gallu gan ddefnyddio'r prawf a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, gan ystyried y cyngor yn yr arweiniad perthnasol. Os byddwch yn ei chael hi'n anodd barnu a yw claf yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad neu beidio, dylech geisio cymorth gan rywun sy'n adnabod y claf yn dda, er enghraifft, aelod arall o'r tîm gofal iechyd neu rywun sy'n agos i'r claf.

Gweler paragraffau 27–29.

Ar gael ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/decision-making-consent

-
- 85** Mewn achosion cymhleth pan fyddwch o'r farn nad ydych yn gallu ffurfio barn, dylech geisio mewnbwn arbenigol gan seiciatryddion, niwrolegwyr, therapyddion iaith a lleferydd neu nyrsys cyswllt. Dylech geisio mewnbwn arbenigol hefyd os bydd y claf neu rywun sy'n agos iddynt yn anghytuno gyda'ch barn.
- 86** Os bydd y claf yn adennill galluedd efallai, a gellir oedi'r penderfyniad, rhaid i chi ystyried hyn.

Gwneud penderfyniad pan fo'r claf heb alluedd: budd cyffredinol

- 87** Rydym yn defnyddio'r term 'budd cyffredinol' i ddisgrifio'r sail foesegol dros wneud penderfyniadau am driniaeth a gofal ar gyfer cleifion sy'n oedolion ac y maent heb alluedd i benderfynu drostynt eu hunain. Mae hyn yn cynnwys pwyso a mesur risgiau niwed a manteision posibl i'r claf unigol ar gyfer pob un o'r dewisiadau sydd ar gael, gan gynnwys y dewis o beidio gwneud unrhyw beth. Mae cysyniad budd cyffredinol yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol i ystyried a yw triniaeth yn 'cynnig budd' i glaf (yr Alban), neu a yw er 'budd pennaf' y claf (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon).
- 88** Os mai chi yw'r meddyg sy'n trin, cyn dod i'r casgliad mai eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu pa ddewis(iadau) fyddai'n cynnig budd cyffredinol i glaf heb alluedd, dylech gymryd camau rhesymol i ddarganfod:
- a** a oes tystiolaeth o werthoedd a dewisiadau'r claf a fynegwyd yn flaenorol, y gallent fod yn rhwymo mewn cyfraith, megis penderfyniad neu ddatganiad ymlaen llaw
 - b** a oes gan rywun arall yr awdurdod cyfreithiol i wneud y penderfyniad ar ran y claf neu wedi cael eu penodi i'w cynrychioli.

- 89** Os na cheir tystiolaeth o'r ffaith y gwrthodwyd triniaeth ymlaen llaw, sy'n rhwymo mewn cyfraith, ac nid oes gan unrhyw un awdurdod cyfreithiol i wneud y penderfyniad hwn drostynt, rydych chi'n gyfrifol am benderfynu ar yr hyn a fyddai'n cynnig budd cyffredinol i'ch claf. Wrth wneud hyn, rhaid i chi:
- a** ymgynghori gyda'r rhai sy'n agos i'r claf ac aelodau eraill y tîm gofal iechyd, ystyried eu safbwyntiau am yr hyn y byddai'r claf yn ei ddymuno, a cheisio dod i gytundeb gyda nhw
 - b** ystyried pa ddewis sy'n cyd-fynd agosaf ag anghenion, dewisiadau, gwerthoedd a blaenoriaethau'r claf
 - c** ystyried pa ddewis fyddai'n cyfyngu leiaf ar y dewisiadau i'r claf yn y dyfodol.
- 90** Os bydd dewis arfaethedig am driniaeth neu ofal yn cyfyngu ar hawl claf i gael rhyddid personol, rhaid i chi ystyried a oes angen awdurdod cyfreithiol arnoch i fwrw ymlaen ag ef dan yr amgylchiadau.
- 91** Dylech neilltuo digon o amser, os oes modd, i gynnal trafodaethau gyda'r rhai y mae ganddynt ddiddordeb yn lles y claf, a dylech geisio dod i gytundeb ynghylch sut i symud ymlaen.

Datrys anghytundebau

- 92** Weithiau, bydd aelodau'r tîm gofal iechyd yn anghytuno am yr hyn a fyddai'n cynnig budd cyffredinol i'r claf, neu bydd y rhai sy'n agos i'r claf yn anghytuno gyda chi a'r tîm gofal iechyd. Mae'n well, ac yn bosibl fel arfer, i ddatrys anghytundebau am driniaeth a gofal claf trwy gyfrwng prosesau lleol. Er enghraifft, trwy:
- a** gynnwys eiriolwr annibynnol neu wasanaeth cyfryngu lleol
 - b** ymgynghori â chydweithiwr mwy profiadol a/neu arbenigwr annibynnol
 - c** cynnal cynhadledd achos neu geisio cyngor gan bwyllgor moeseg clinigol.
- 93** Ar ôl cymryd y camau hyn, os bydd anghytundeb o hyd am benderfyniad arwyddocaol, rhaid i chi ddilyn unrhyw gamau ffurfiol i ddatrys yr anghytundeb sy'n ofynnol gan y gyfraith, neu a nodir yn y cod ymarfer perthnasol. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gwahanol bobl y mae'n rhaid i chi ymgynghori â nhw, eu gwahanol rolau wrth wneud penderfyniadau a'r pwys y mae'n rhaid i chi ei roi i'w safbwyntiau. Dylech ystyried ceisio cyngor cyfreithiol ac efallai y bydd angen i chi wneud cais i lys priodol neu gorff statudol am adolygiad neu benderfyniad annibynnol. Dylid hysbysu eich claf, y rhai sy'n agos iddynt ac unrhyw un a benodwyd i weithredu ar eu rhan, mor gynnar ag y bo modd o unrhyw benderfyniad i gychwyn camau cyfreithiol, fel eu bod yn cael y cyfle i gymryd rhan neu i gael eu cynrychioli.

Gwneud penderfyniadau am driniaeth a gofal pan fydd y gyfraith yn effeithio ar hawl claf i roi eu caniatâd

- 94** Gall deddfwriaeth iechyd meddwl neu ddeddfwriaeth arall⁵ a phwerau cyfraith gyffredin y llysoedd effeithio ar hawl claf i wneud penderfyniad gofal iechyd drostynt eu hunain. Efallai y bydd y gyfraith yn mynnu bod cleifion yn cydymffurfio ag asesiad neu driniaeth oherwydd eu bod yn achosi perygl i'w hunain, i'w hiechyd neu i eraill. Ceir rhagofalon llym ynghylch defnyddio'r pwerau cyfreithiol hyn i gyfyngu ar unigolion, ac mae'r rhain yn penderfynu ar yr hyn a ganiateir heb orfod sicrhau caniatâd. Dylech fod yn ymwybodol o'r driniaeth a ganiateir gan y gyfraith a'r driniaeth na chaniateir gan y gyfraith.
- 95** Os byddwch yn barnu bod angen defnyddio'r pwerau cyfreithiol hyn i drin neu asesu claf heb sicrhau caniatâd, rhaid i chi ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol ac mewn canllawiau statudol, ac ym mharagraff 96 yr arweiniad hwn. Os bydd angen cyngor neu gymorth arnoch, dylech gysylltu â'ch corff amddiffyn neu'ch cymdeithas broffesiynol, neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y claf

- 96** Rhaid i chi fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y claf hyd yn oed os yw'r gyfraith yn caniatáu i chi asesu neu drin claf heb sicrhau eu caniatâd. Er enghraifft, rhaid i chi:
- a** fod yn gwrtais ac yn ystyriol, gan barchu urddas a phreifatrwydd eich claf
 - b** diogelu hawliau a rhyddid eich claf, ac os bydd angen cyfyngu, ei ddefnyddio am yr amser lleiaf ag y bo modd ac yn y ffordd leiaf gyfyngol ag y bo modd
 - c** cynorthwyo eich claf i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal, rhoi gwybod iddynt os ydynt yn gallu dewis mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar eu triniaeth, a pharchu eu dewisiadau os oes modd
 - d** hysbysu eich claf o gynnydd eu triniaeth, gan adolygu penderfyniadau yn rheolaidd.

Ôl-nodion

- 1 Os yw claf yn siarad Cymraeg, gallai hyn fod yn ofyniad cyfreithiol.
- 2 Mae paragraff 60 *Arfer meddygol da* yn nodi; 'Rhaid i chi ystyried ac ymateb i anghenion cleifion anabl, a dylech wneud addasiadau rhesymol i'ch arfer er mwyn sicrhau bod modd iddynt gael gofal sy'n bodloni eu hanghenion.' Nid yw 'addasiadau rhesymol' yn golygu newidiadau i'r amgylchedd ffisegol yn unig. Gall gynnwys, er enghraifft, bod yn hyblyg am amser neu hyd apwyntiadau, a gwneud trefniadau gyda'r rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu, megis nam ar eu clyw. Am ragor o wybodaeth, trowch at wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: equalityhumanrights.com/en
- 3 Gweler paragraffau 128–146 ynghylch CPR yn [Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes](#).
- 4 Gweler [Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch](#).
- 5 Er enghraifft, Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984; the Public Health etc. (Scotland) Act 2008; the Public Health Act (Northern Ireland) 1967.

Gwneud penderfyniadau a chaniatâd



E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Tîm Caniatâd CMC, Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **dylech ddeialu 18001** yna **0161 923 6602**

er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun

Ymunwch â'r sgwrs



[@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)



facebook.com/gmcuk



linkd.in/gmcuk



youtube.com/gmcuktv

I ofyn am fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn, neu fersiwn mewn ffurf neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom, publications@gmc-uk.org.

© 2020 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae modd atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/DMC_W/0920

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol